

Enghreifftiau o drawsgrifiadau cyfweliadau a chodio

Atodiad 2: Cyfweliadau unigol gyda Disgyblion Blwyddyn 3

Lliw	Thema Cyffredin o fewn y data
Glas	Plant yn teimlo'n nerfus wrth ddefnyddio ffyn lolipop
Melyn	Plant yn argymhell i weithio gydag eraill
Gwyrdd	Dealltwriaeth y plant o'r strategaeth

Cyfweliad gyda Plentyn E:

Cyfweilydd - Pam wyt ti'n credu mae athrawon yn defnyddio ffyn lolipop?

Plentyn E – *I gwneud ymarfer corff*

Cyfweilydd – Dyna pam oedd fi'n defnyddio nhw, pam defnyddiais i nhw?

Plentyn E – *Achos bod enwau plant arno nhw felly oedd pob un yn wahanol*

Cyfweilydd - Sut wyt ti'n teimlo pan mae'r athrawes yn defnyddio ffyn lolipop i ddewis rhywun i ateb cwestiwn?

Plentyn E - *Teimlo'n iawn ond weithiau rwy'n nerfus*

Cyfweilydd - Pam wyt ti'n teimlo fel hyn?

Plentyn E – *Achos efallai fi ddim yn gwybod yr ateb*

Cyfweilydd - Oes ffordd gall y strategaeth cael ei wella?

Plentyn E - *ti'n gallu rhoi nhw mewn grwp fel... um fel... gofyn i'r grwp.*

Cyfweilydd – Oooh syniad da, oes gennyt unrhyw beth arall i ddweud am y ffyn lolipop?

Plentyn E – *Na.*

Cyfweilydd – Iawn, diolch am gymryd rhan.

Atodiad 2: Cyfweiliadau gyda Disgyblion Blwyddyn 5

Lliw	Themâu cyffredin o fewn y data
Pinc	Strategaethau
Glas	Cryfderau
Melyn	Heriau

Allwedd:

Ymateb dysgwr	Ydych chi'n defnyddio dull bodiau i fyny fel dull o adborth llafar? Os ydych chi, ydych chi yn hoffi defnyddio hyn a pham?
A	Ydw, mae'n rhwydd i mynegi barn am sut rydw i'n teimlo am y gwaith
B	Ydw, mae e yn helpu fi dweud sut rydw i yn teimlo, wedyn dwi'n gallu cael esboniad pellach
C	Na, cause mae pawb yn gallu gweld, ond bydd well gyda fi gwneud e gyda llygaid ar gau fel bod neb arall yn y dosbarth y gallu gweld
D	Ydw, dwi'n hoffi gallu mynegi barn heb angen dweud unrhywbeth
E	Ydw, ffordd hawdd o gofyn am help

Cwestiwn 1

Ymateb dysgwr	Ydych chi'n defnyddio dull asesu ar lafar gyda partner? Ydych chi yn hoffi gwneud hyn?
A	Ydw, fi'n dweud wrth partner sut fi'n teimlo. Hoffi e mwy nag yr athrawes, haws i neud, a mae e yn cyflymach a fi'n mwynhau neud e
B	Ydw, oherwydd di'n gallu helpu rhywun arall i gael yr ateb cywir – cyfle i siarad a helpu y partner trwy'r tasg
C	Gwell gyda fi marcio gwaith fy hun fel bod pobl ddim yn gwybod sut fi wedi gwneud yn y gwaith Fi ddim yn hoffi gwneud 2 seren a dymuniad ar lafar oherwydd bod pobl yn gallu bod yn gas Bydd well gyda fi bod y dosbarth yn rhoi 2 seren a fi yn gosod dymuniad i fy hun
D	Os mae rhywun wedi gwneud yn wael – fi ddim moen gwneud i'r partner teimlo'n wael. Fi'n hoffi'r athrawes marcio gwaith yn fwy
E	Ydw. Hoffi llafar fel bod cyfle i allu mynd a newid y gwaith cyn iddo gael ei farcio yn ffurfiol

